| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Polisi Cronfa Ariannol Wrth Gefn |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 3 |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Dysgwyr<br>Learners |

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): /<br>Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | *Asesiad Effaith y Polisi Cronfa Ariannol Wrth Gefn ar y Gymraeg a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth* |
| *Effaith ar yr Iaith Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011. |

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:**<br>**Document Owner:** | *Cyfarwyddwr Cyllid* | | |
| **Ymgynghoriad / Consultation:** | | | |
| **Dyddiad cymeradwyo /**<br>**Date Approved** | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu /<br>Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | *Enw'r Grŵp a'r Dyddiad /*<br>*Name of Group & Date* |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant /<br>Communications & Culture Committee: | | *05/06/24* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd /<br>Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg /<br>Audit & Risk Committee: | - |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau /<br>Curriculum & Standards Committee | - |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | *23/05/24* |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | *17/06/24* |
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Review Date:** | 30/06/25 | | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

**<u>Tabl Cynnwys</u>**

**Polisi Cronfa Ariannol Wrth Gefn**


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cwmpas | 3 |
| 2. | Cyflwyniad | 3 |
| 3. | Gweinyddiaeth a Thaliadau | 3 |
| 4. | Blaenoriaethau | 4 |
| 5. | Dysgwyr Cymwys | 4 |
| 6. | Mathau o Daliadau | 5 |
| 7. | Cyhoeddusrwydd y Cronfeydd | 6 |
| 8. | Gweithdrefn Apelio | 6 |

## 1. Cwmpas

1.1. Diben y Polisi Cronfa Ariannol Wrth Gefn hwn yw cynyddu ymwybyddiaeth am y cymorth ariannol sydd ar gael i ddysgwyr cymwys sy'n astudio ar bob safle Coleg Cambria trwy'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

## 2. Cyflwyniad

2.1. Bydd y Coleg yn defnyddio grantiau'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i roi cymorth ariannol i ddysgwyr y byddai eu mynediad i addysg bellach, neu i gwblhau'r addysg honno, yn cael ei rwystro efallai gan ystyriaethau ariannol neu y byddent yn wynebu anawsterau ariannol am ba reswm bynnag, gan gynnwys anableddau corfforol neu anableddau eraill.

2.2. Mae Coleg Cambria yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i ddysgwyr i'w helpu i wneud y dewis cywir ac i gyflawni eu potensial. Mae darparu cyngor ariannol i ddysgwyr yn rhan allweddol o sicrhau bod grant Cronfa Ariannol Wrth Gefn yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, ac mae'r tîm Gwasanaethau Dysgwyr yn cynnig dull ar wahân sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr ac wedi'i deilwra i weddu anghenion pob dysgwr unigol.

## 3. Gweinyddiaeth a Thaliadau

3.1. Dilynir gweithdrefn y Coleg ar gyfer ystyried ceisiadau a gwneud taliadau i ddysgwyr cymwys. Bydd cymorth ar gael yn gyffredinol ar gyfer:

- Gofal Plant
- Cludiant
- Llety Preswyl - 60% yw cyfraniad y Gronfa Ariannol wrth Gefn i'w adolygu'n flynyddol
- Costau gwisg a chyfarpar
- Teithiau Maes
- Llyfrau a Deunyddiau
- Taliadau brys
- Gwiriadau DBS
- Lwfans prydau dyddiol yn ystod gwyliau'r Coleg (cinio)
- Ffioedd cofrestru ar gyfer y Wobr Dug Caeredin
- Ffioedd ymgeisio UCAS
- Caledi - eitemau hanfodol

3.2. Bydd y Coleg yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod systemau rheoli a rheolaeth ariannol yn weithredol i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion rhoi'r grant o'r fath ac y cydymffurfir ag unrhyw delerau ac amodau sydd ynghlwm wrtho.

3.3. Bydd y blaenoriaethau ar gyfer rhoi cymorth drwy'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn a dosbarthu'r arian yn cael eu cymeradwyo gan y Grŵp Monitro'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Adolygir y blaenoriaethau hyn bob blwyddyn.

3.4. Aelodau'r Grŵp Monitro'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn yw:

- Cyfarwyddwr Cyllid **(Cadeirydd)**
- Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr
- Rheolwr y Feithrinfa
- Pennaeth yr Adran Cwricwlwm (*2)

- Ymgynghorydd Gwasanaethau Dysgwyr
- Partner Busnes Cyllid

3.5. Bydd y grŵp yn cyfarfod bob tymor i adolygu statws y gronfa a'i dosbarthu, ac i ystyried camau i'w gwella.

## 4. Blaenoriaethau

4.1. Wrth benderfynu pa ddysgwyr unigol o blith y rhai sy'n gymwys i gael cymorth, bydd grwpiau blaenoriaeth yn cael eu dewis o'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (y Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Addysg Bellach) (Cymru)).

- Dysgwyr sydd angen cymorth gyda chostau gofal plant, yn enwedig rhieni unigol.
- Dysgwyr a fydd yn cyrraedd 20 oed cyn iddynt gwblhau eu cyrsiau Safon Uwch neu gyrsiau addysg bellach eraill, ac sy'n wynebu anawsterau ariannol penodol oherwydd bydd eu teuluoedd yn peidio â derbyn budd-dal plant ac ychwanegiadau dibyniaeth yn eu budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol neu gredydau treth ar gyfer y dysgwyr hyn, ar ôl eu pen-blwydd yn 20 oed.
- Dysgwyr sydd wedi bod mewn gofal, ar brawf, neu sydd fel arall yn cael eu hystyried eu bod mewn risg.
- Dysgwyr ar incwm isel neu o deuluoedd incwm isel, gan gynnwys dysgwyr ifanc nad ydynt yn gymwys i gael cymhorthdal incwm, pobl ddi-waith sy'n cael Credyd Cynhwysol a'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau'r wladwriaeth ar sail prawf modd, fel Credyd Treth Gwaith a'u dibynyddion digyflog.
- Dysgwyr o Ardal Gynnyrch Ehangach gyda lefel o amddifadedd addysgol sy'n uwch na throthwy penodol.
- Dysgwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol penodol oherwydd bydd eu teuluoedd yn peidio â chael elfen plant y Credyd Cynhwysol o 1 Medi, yn dilyn eu pen-blwydd yn 19 oed.

4.2. Ond, os yw dysgwr yn gymwys i gael ei gynnwys mewn un neu ragor o'r grwpiau blaenoriaeth, yna nid yw hynny ynddo'i hun yn sail ar gyfer rhoi arian o'r dyraniad cyllid at ddibenion y Cynllun hwn.

## 5. Dysgwyr Cymwys

5.1. Dim ond i'r dysgwyr cymwys hynny fel y'u diffiniwyd yn y polisi hwn ac yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru, y gellir talu iddynt o Gronfeydd Ariannol Wrth Gefn.

5.2. Mae Coleg Cambria yn cadw'r hawl i briodoli amodau cymhwyso ychwanegol i bob categori'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn, yn unol â chanllawiau cenedlaethol a blaenoriaethau strategol y Coleg.

5.3. Bydd ceisiadau ar gyfer cyllid yn cael eu gwerthuso fesul achos yn unol â'r canllawiau. Ym mhob achos bydd y cais yn cael ei asesu ar sail tystiolaeth gan y dysgwr a'i amgylchiadau unigol. Byddwn yn ystyried amgylchiadau ariannol dysgwyr a'r cymorth sydd ar gael gan ffynonellau eraill fel Lwfans Cynhaliaeth

Addysg, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a grantiau a budd-daliadau eraill. Bydd y trothwyon isod yn cael eu defnyddio fel canllaw:

| *Meini Prawf* | *Oedran* | *Incwm y Cartref* |
|---|---|---|
| **Dysgwyr llawn amser 500+ o oriau cyswllt** | **16-18 oed** | **Trothwy LCA** |
| | **19 oed+ nad ydynt yn derbyn Grant Dysgu LlC** | **Trothwy LCA** |
| | **19 oed+ ac yn derbyn Grant Dysgu LlC** | **Trothwy LCA yn ogystal ag ystyried grant** |

5.4. Mae disgwyl i ddysgwyr gyflwyno tystiolaeth o'r holl incwm sy'n cyfrannu at incwm y cartref. Mae hyn yn cynnwys rhieni, gwarcheidwaid cyfreithiol, priod neu bartner. Mae disgwyl i ddysgwyr gyflwyno tystiolaeth o incwm y cartref drwy gyflwyno'r dogfennau perthnasol fel tystiolaeth. Dylai gynnwys:

- eich llythyr Dyfarnu Credyd Cynhwysol diweddaraf; neu
- eich Credyd Treth Gwaith diweddaraf; neu
- eich llythyr Cymorth Incwm diweddaraf; neu
- eich slipiau tâl ar gyfer y 3 mis diwethaf; neu
- os gwneir hunanasesiad - llythyr gan eich cyfrifydd yn nodi incwm y tri mis diwethaf

## 6. Mathau o Daliadau

### 6.1. Gwisg a Chyfarpar

6.1.1. Bydd dysgwyr yn gallu gwneud cais am gymorth o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn ar gyfer gwisg, llyfrau a chostau cyfarpar sy'n gysylltiedig â'u cwrs, unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd. Yn yr un modd, gellir rhoi cyllid dewisol ar gyfer argyfyngau unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd, fel y bo'n briodol.

### 6.2. Gofal Plant

6.2.1. Bydd dysgwyr yn cael cymorth gofal plant fesul tymor gyda dyraniad y tymor canlynol yn cael ei bennu gan lefelau presenoldeb boddhaol (o leiaf 90%). Yn ddieithriad, mae'n rhaid i ddysgwyr wneud cais i'r Gronfa Gofal Plant bob blwyddyn astudio.

6.2.2. Bydd rhaid i bob ymgeisydd ddangos cynnydd priodol gyda'u lefel astudio. Ni fydd cymorth fel arfer yn cael ei roi os nad yw dysgwr wedi cwblhau cymhwyster blaenorol yn llwyddiannus yn y coleg neu eu bod yn ail-wneud y flwyddyn i wella eu gradd gyffredinol.

6.2.3. Bydd diffyg presenoldeb dysgwr yn y dosbarth am gyfnod sy'n hirach na 4 wythnos yn arwain at dynnu'r lle gofal plant yn ôl. Caiff presenoldeb ei fonitro bob tymor. Bydd cymorth ariannol yn cael ei dynnu'n ôl os nad yw'r presenoldeb yn foddhaol. Bydd ceisiadau gan ddysgwyr sy'n dychwelyd i'r coleg yn cynnwys adolygu patrwm presenoldeb y flwyddyn flaenorol yn ogystal â'r asesiad cyllid arferol.

### 6.3. Llety

6.3.1. Bydd dysgwyr cymwys yn gallu cael cymorth tuag at eu llety yn Llysfasi.

### 6.4. Meini Prawf Ychwanegol ar gyfer Talebau Bwyd Argyfwng

6.4.1. Bydd dysgwyr yn gallu gwneud cais am gymorth os ydynt yn cael eu hunain yn ddigartref yn sydyn ac yn anwirfoddol, e.e. eu bod wedi ymddieithrio oddi wrth eu rhieni/gwarcheidwaid, a'u bod yn bodloni meini prawf cymhwysedd safonol y gronfa.

### 6.5. Taliadau Argyfwng

6.5.1. Gellir gwneud taliadau brys i'r dysgwyr hynny sydd wedi cael prawf modd ac sy'n cael arian o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn, neu i unrhyw ddysgwr arall sy'n gallu cyflwyno achos arbennig o angen ariannol. Er enghraifft, talu treuliau teithio gormodol os nad oes cludiant y coleg ar gael neu 'anawsterau teithio' eraill, llety brys, taliadau 'unigol' - fel ffioedd cyrsiau/arholiadau.

6.5.2. Gweithredir y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn ôl doethineb y Pennaeth Gwasanaethau Myfyrwyr, ar ôl cytuno ar hynny gydag un o'r uwch reolwyr sy'n aelod o'r Grŵp Monitro'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

### 6.6. Trefniadau Swmp-brynu – Cludiant

6.6.1. Bydd y Coleg yn defnyddio'r broses cymeradwyo taliadau LCA a'r rhestrau tymhorol sydd ar gael o wefan y Llywodraeth i nodi'r holl ddysgwyr 16-18 oed sy'n gymwys ar gyfer cludiant Coleg. Bydd yr adroddiad hwn yn cefnogi'r cais am ddyrannu arian tuag at drefniadau swmpbrynu. Bydd y broses hon yn dileu'r angen i'r dysgwyr hynny a nodir i lenwi ffurflen gais y Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

6.6.2. Mae'r cyfraniad fesul dysgwr yn cael ei gapio ar gost dymhorol tocyn dysgwr 'ARRIVA'.

## 7. Cyhoeddusrwydd y Cronfeydd

7.1. Bydd y Gwasanaethau Dysgwyr yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn. Bydd taflenni yn cael eu dangos mewn mannau strategol. Bydd y

manylion yn cael eu cynnwys mewn cyhoeddiadau i ddysgwyr a bydd gwybodaeth ar gael ar wefan y coleg, mewnrwyd y dysgwyr a'r cyfryngau cymdeithasol.

7.2. Bydd unrhyw ddogfennau rydym yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant neu gymorth ariannol yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg, ac ni fyddwn yn trin fersiwn Gymraeg o ddogfennau o'r fath yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt yn unol â Safon 75 y Gymraeg.

## 8. Y Gymraeg

Yn unol â Safonau 76-79 y Gymraeg:

- Pan fyddwn yn gwahodd ceisiadau am grant neu gymorth ariannol, byddwn yn datgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.
- Ni fyddwn yn trin ceisiadau am grant neu gymorth ariannol a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymhlith materion eraill, o ran y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau a'r amserlen ar gyfer rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau).
- Os byddwn yn cael cais am grant neu gymorth ariannol yn Gymraeg a bod angen cyfweld â'r ymgeisydd fel rhan o'n hasesiad o'r cais byddwn yn: (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn galluogi'r ymgeisydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, a
  (b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (oni bai ein bod yn cynnal y cyfweliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).
- Pan fyddwn yn rhoi gwybod i ymgeisydd am ein penderfyniad am gais am grant neu gymorth ariannol, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg.

## 9. Gweithdrefn Apelio

9.1. Diben y weithdrefn hon yw sicrhau bod unrhyw apêl a wneir gan ddysgwr yn cael ei thrin yn deg, yn wrthrychol a heb wahaniaethu. Gall dysgwyr sy'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â rhoi cymorth ariannol iddynt, wneud hynny'n ysgrifenedig a'i anfon at sylw'r Cyfarwyddwr Cyllid. Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn goruchwylio panel apeliadau'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn, a fydd yn cynnwys aelodau'r panel nad oeddent yn gysylltiedig â'r penderfyniad gwreiddiol.

9.2. Bydd penderfyniad y Panel Apêl yn derfynol.